OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 322 (Cy.53)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

Gwnaed - - - -	*8 Chwefror 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*13 Chwefror 2012*
Yn dod i rym - -	*6 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 326A(4) a (6), 332ZC(1) a (3), 333(5), 334(2), 336(1),(2),(2A) a (4A), 336A a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac adran 207(4) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**2**) a pharagraffau 6A(**3**), 6(1), (2), (3), (4), (5) a (7) o Atodlen 17 i'r Ddeddf honno, ac ar ôl ymgynghori â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn unol â pharagraff 24(1) o Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007(**4**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cydsynio i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud i'r graddau y mae cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol yn ofynnol gan adrannau 333(5), 334(2), a 336A(2)(b) o Ddeddf Addysg 1996.

(**1**) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 326A gan adran 5 o Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 (p.10). Amnewidiwyd is-adran (6) o'r adran honno gan baragraffau 1 a 3 o Atodlen 18 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32). Diwygiwyd is-adran (6)(b) gan baragraffau 127 ac 129(b) o Atodlen 3 i Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Tribiwnlys 2008 (O.S. 2008/2833) ac fe'i diwygiwyd ymhellach gan baragraff 7(1) a (2) o Atodlen 2 i O.S. 2010/1158. Mewnosodwyd adran 332ZC(1) gan adran 3 o Fesur Addysg (Cymru) 2009 (2009 mccc 5) ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2010/1148. Diwygiwyd adran 333(5) gan baragraffau 127, 130(d) ac 130(f) o Atodlen 3 i O.S. 2008/2833. Diwygiwyd adran 334(2) gan baragraffau 127 a 131(a) o Atodlen 3 i O.S. 2008/2833. Diwygiwyd adran 336(1) gan baragraffau 127, 133(a)(i) ac 133(a)(ii) o Atodlen 3 i O.S. 2008/2833. Diwygiwyd adran 336(2) gan Atodlenni 8 a 9 i Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 ac fe'i diwygiwyd ymhellach gan O.S. 2008/2833 ac adran 7 o Fesur Addysg (Cymru) 2009. Mewnosodwyd adran 336(2A) gan adran 42(1) o Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 ac Atodlen 8 iddi ac a ddiwygiwyd gan O.S. 2008/2833. Mewnosodwyd adran 336(4A) gan adran 42(1) o Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 ac Atodlen 8 iddi ac a ddiwygiwyd gan O.S. 2008/2833 ac O.S. 2010/2279. Mewnosodwyd adran 336A gan adran 4 o Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001. Diwygiwyd is-adran (1) o'r adran honno gan O.S. 2010/1158. Amnewidiwyd is-adran (2) gan baragraffau 1 a 6 o Atodlen 18 i Ddeddf Addysg 2002 a diwygiwyd is-adran (2)(b) gan baragraffau 127 a 136(b) o Atodlen 3 i O.S. 2008/2833. Diwygiwyd adran 569(4) gan adran 8 o Fesur Addysg (Cymru) 2009.

(**2**) 2010 p.15.

(**3**) Mewnosodwyd paragraff 6A yn Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gan O.S. 2011/1651.

(**4**) 2007 p.15.

RHAN A

CYFFREDINOL

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012 a deuant i rym ar 6 Mawrth 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "apêl" ("*appeal*") yw—

(a) yn ddarostyngedig i is-baragraff (b), apêl i'r Tribiwnlys o dan Ran 4 o Ddeddf 1996 ac Atodlen 27 iddi yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol;

(b) yn rheoliadau 58 i 60, apêl i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn penderfyniad panel tribiwnlys;

ystyr "apelydd" ("*appellant*") yw person sydd â hawl i apelio i'r Tribiwnlys o dan Ran 4 o Ddeddf 1996 neu o dan reoliadau a wnaed o dan adran 17(1) a (2) o Fesur Addysg (Cymru) 2009(**5**);

ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw awdurdod ac eithrio'r awdurdod lleol a wnaeth y penderfyniad a herir;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw'r awdurdod lleol yng Nghymru a wnaeth y penderfyniad a herir;

ystyr "Cadeirydd" ("*Chair*") yw person a benodir i'r panel Cadeiryddion o dan adran 333(2) o Ddeddf 1996;

ystyr "clerc i'r panel tribiwnlys" ("*clerk to the tribunal panel*") yw'r person a benodir gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys i weithredu yn y swydd honno mewn un neu ragor o wrandawiadau;

ystyr "Cofrestr" ("*Register*") yw'r gofrestr y mae'n ofynnol ei chadw o dan reoliad 75;

mae i "corff cyfrifol" yr ystyr a roddir i "*responsible body*" gan adran 85(9) o Ddeddf 2010(**6**);

ystyr "cyfaill achos" ("*case friend*") yw person sy'n cyflwyno datganiad o addasrwydd i'r Tribiwnlys yn unol â rheoliad 66, i arfer hawl y plentyn i wneud apêl neu hawliad ar ran y plentyn;

ystyr "cyfeiriad e-bost" ("*email address*") yw cyfeiriad post electronig personol y person;

ystyr "cyfnod datganiad achos" ("*case statement period*") yw'r cyfnod a bennir yn rheoliad 19;

ystyr "datganiad" ("*statement*") yw'r datganiad o anghenion addysgol arbennig mewn perthynas â'r plentyn, a wnaed o dan adran 324 o Ddeddf 1996;

ystyr "datganiad achos" ("*case statement*") yw'r datganiad achos a gyflwynir yn unol â rheoliad 20 neu 21;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996;

ystyr "Deddf 2010" ("*the 2010 Act*") yw Deddf Cydraddoldeb 2010;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod ac eithrio—

(**5**) 2009 mccc 5. Cymeradwywyd Mesur Addysg (Cymru) 2009 gan Ei Mawrhydi yn y Cyngor ar 9 Rhagfyr 2009.

(**6**) O dan adran 85(9) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu, pa un bynnag sydd â'r swyddogaeth berthnasol, yw'r corff cyfrifol ar gyfer ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir; yr awdurdod lleol yw'r corff cyfrifol ar gyfer uned cyfeirio disgyblion; y perchennog yw'r corff cyfrifol ar gyfer ysgol annibynnol neu ysgol arbennig nas cynhelir gan awdurdod lleol.

(a) dydd Sadwrn;

(b) dydd Sul;

(c) unrhyw ddiwrnod o 25 Rhagfyr i 1 Ionawr yn gynwysedig;

(ch) dydd Gwener y Groglith;

(d) y dydd Llun cyntaf ym mis Mai;

(dd) unrhyw ddiwrnod ym mis Awst; neu

(e) diwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan adran 1 o Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**7**);

ystyr "dogfen" ("*document*") yw unrhyw beth y cofnodir gwybodaeth o unrhyw ddisgrifiad ynddo;

ystyr "gwrandawiad" ("*hearing*") yw gwrandawiad gerbron y Llywydd, Cadeirydd neu'r panel tribiwnlys at y diben o alluogi'r Llywydd, Cadeirydd neu'r panel tribiwnlys i gyrraedd penderfyniad ar apêl neu hawliad neu unrhyw gwestiwn neu fater, lle mae hawl gan y partïon i fod yn bresennol a chael eu clywed, ac y mae'n cynnwys gwrandawiad a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyswllt fideo, ar y teleffon neu drwy ddull arall o gyfathrebu electronig dwyffordd disymwth;

ystyr "gwŷs tyst" ("*witness summons*") yw dogfen a ddyroddir gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod tyst yn bresennol mewn gwrandawiad o apêl neu hawliad, i roi tystiolaeth neu ddangos dogfennau mewn perthynas ag apêl neu hawliad i'r Tribiwnlys;

ystyr "hawliad" ("*claim*") yw hawliad o dan Bennod 1 o Ran 6 o Ddeddf 2010 ac Atodlen 17 i'r Ddeddf honno ar gyfer gwahaniaethu ar sail anabledd;

ystyr "hawlydd" ("*claimant*") yw person sydd â'r hawl i wneud hawliad i'r Tribiwnlys o dan Bennod 1 o Ran 6 o Ddeddf 2010 ac Atodlen 17 i'r Ddeddf honno, neu o dan reoliadau a wnaed o dan adran 17(1) a (2) o Fesur Addysg (Cymru) 2009;

mae i "llofnod electronig" yr ystyr a roddir i "*electronic signature*" gan adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(**8**);

ystyr "Llywydd" ("*President*") yw Llywydd y Tribiwnlys a benodir o dan adran 333(2)(a) o Ddeddf 1996;

ystyr "panel addysg" ("*education panel*") yw'r personau a benodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 333(2)(c) o Ddeddf 1996 i banel lleyg y Tribiwnlys;

ystyr "panel tribiwnlys" ("*tribunal panel*") yw panel o'r Tribiwnlys a gaiff benderfynu apêl neu'r hawliad neu unrhyw gwestiwn neu fater mewn cysylltiad ag apêl neu hawliad;

ystyr "parti" ("*party*") yw—

(a) mewn apêl, yr apelydd neu'r awdurdod lleol; a

(b) mewn hawliad, yr hawlydd neu'r corff cyfrifol;

ystyr "penderfyniad a herir" ("*disputed decision*") yw'r penderfyniad neu'r weithred, neu'r methiant i benderfynu neu weithredu, y dygir yr apêl neu'r hawliad mewn perthynas ag ef neu hi;

mae i "person priodol" yr ystyr a roddir i "*appropriate person*" gan baragraff 4(3) o Atodlen 27 i Ddeddf 1996;

ystyr "plentyn" ("*child*") yw'r person sy'n destun yr apêl neu'r hawliad;

(**7**) 1971 p.80.
(**8**) 2000 p.7.

ystyr "rhiant" ("*parent*") yw rhiant at ddibenion adran 576 o Ddeddf 1996(**9**);

mae "sylwadau llafar" ("*oral representations*") yn cynnwys tystiolaeth a roddir, oherwydd amhariad ar leferydd neu glyw, gan berson sy'n defnyddio iaith arwyddion;

ystyr "sylwedydd" ("*observer*") yw person a gaiff fod yn bresennol mewn gwrandawiad at y diben o arsylwi ar y gwrandawiad, ond rhaid iddo beidio â chyfranogi yn y gwrandawiad na gwneud unrhyw nodiadau o'r gwrandawiad na gwneud unrhyw recordiad o'r gwrandawiad drwy ddull ffotograffig, neu drwy ddull sain neu drwy unrhyw ddull arall;

ystyr "Tribiwnlys" ("*Tribunal*") yw Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru neu'r Special Educational Needs Tribunal for Wales(**10**);

ystyr "Tribiwnlys Haen Gyntaf" ("*First-tier Tribunal*") yw'r tribiwnlys a sefydlwyd o dan adran 3 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007, sydd ag awdurdodaeth yn Lloegr dros apelau a hawliadau;

mae "tystiolaeth" ("*evidence*") yn cynnwys deunydd o unrhyw ddisgrifiad, a gofnodir ar unrhyw ffurf;

ystyr "Uwch Dribiwnlys" ("*Upper Tribunal*") yw'r tribiwnlys apeliadol a sefydlwyd o dan adran 3 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007(**11**);

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig neu ysgol feithrin a gynhelir gan awdurdod lleol, sef naill ai'r awdurdod lleol a wnaeth y penderfyniad a herir neu awdurdod lleol arall;

ystyr "Ysgrifennydd y Tribiwnlys" ("*Secretary of the Tribunal*") yw'r person sydd am y tro yn gweithredu fel Ysgrifennydd swyddfa'r Tribiwnlys.

Apelau a hawliadau ar neu ar ôl 6 Mawrth 2012

3. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i apêl neu hawliad a gofnodir yn y Gofrestr ar neu ar ôl 6 Mawrth 2012.

Dirymiadau ac arbedion

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), dirymir Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig 2001(**12**) a Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig (Diwygio) 2002(**13**).

(2) Bydd y Rheoliadau a bennir ym mharagraff (1) yn parhau'n gymwys mewn perthynas ag—

(a) cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys;

(b) unrhyw apêl a wneir o dan Ran 4 o Ddeddf 1996 ac Atodlen 27 iddi os cofnodwyd y cais apêl yn y Gofrestr cyn 6 Mawrth 2012.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4) dirymir Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (Darpariaethau Cyffredinol a Gweithdrefn Hawliadau Anabledd) 2002(**14**).

(4) Bydd y Rheoliadau a bennir ym mharagraff (3) yn parhau'n gymwys mewn perthynas ag—

(a) cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys;

(**9**) O dan adran 576 o Ddeddf 1996 mae "parent", mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc, yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n rhiant y plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhiant drosto neu sy'n gofalu am y plentyn. Mae adran 212 o Ddeddf 2010 yn mabwysiadu'r diffiniad hwn at ddibenion anghydfodau anabledd.
(**10**) Adran 333 (1ZA) o Ddeddf 1996.
(**11**) 2007 p.15.
(**12**) O.S. 2001/600.
(**13**) O.S. 2002/2787.
(**14**) O.S. 2002/1985.

(b) unrhyw hawliad a wneir o dan Bennod 1 o Ran 6 o Ddeddf 2010 os cofnodwyd y cais hawlio yn y Gofrestr cyn 6 Mawrth 2012(**15**).

(5) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2)(b) a (4)(b), dirymir Rheoliadau'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig (Terfynau Amser) (Cymru) 2001(**16**).

Darpariaethau trosiannol

5.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os yw—

(a) apêl neu hawliad a wnaed gan riant wedi ei chofnodi neu'i gofnodi yng Nghofrestr y Tribiwnlys cyn 6 Mawrth 2012, a phlentyn sydd â hawl i wneud apêl neu hawliad i'r Tribiwnlys yn rhinwedd rheoliadau a wnaed o dan adran 17(1) a (2) o Fesur Addysg (Cymru) 2009 yn gwneud apêl neu hawliad a gofnodir yng Nghofrestr y Tribiwnlys ar neu ar ôl 6 Mawrth 2012; a

(b) yr apêl neu'r hawliad a wnaed gan y plentyn yn gysylltiedig â'r mater a herir ac ar yr un seiliau ag a bennir yn apêl neu hawliad y rhiant.

(2) Os yw'r amgylchiadau ym mharagraff (1) yn bodoli—

(a) mae rheoliadau 37 a 38 yn gymwys; a

(b) caiff y Llywydd wneud pa bynnag gyfarwyddiadau a ystyria'r Llywydd yn gyfiawn mewn perthynas ag apêl neu hawliad y rhiant.

Yr amcan gor-redol

6.—(1) Amcan gor-redol y Rheoliadau hyn yw galluogi'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys i ymdrin ag apelau a hawliadau yn deg a chyfiawn.

(2) Mae ymdrin ag achos yn deg a chyfiawn yn cynnwys—

(a) ymdrin â'r apêl neu'r hawliad mewn ffyrdd sy'n gymesur â phwysigrwydd yr achos a chymhlethdod y materion dan sylw;

(b) osgoi, i'r graddau y mae'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn ystyried ei bod yn briodol, ffurfioldeb diangen yn yr achosion o dan y Rheoliadau hyn;

(c) sicrhau, i'r graddau y mae'n ymarferol, y trinnir y partïon yn gyfartal o ran trefniadaeth ac y gallant gyfranogi'n llawn yn yr achosion, gan gynnwys hwyluso unrhyw barti i gyflwyno unrhyw apêl neu hawliad, ond heb argymell pa drywydd y dylai'r parti hwnnw ei ddilyn;

(ch) defnyddio arbenigedd neilltuol y Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn effeithiol; a

(d) osgoi oedi, i'r graddau sy'n gyson â rhoi ystyriaeth briodol i'r materion dan sylw.

(3) Rhaid i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys geisio rhoi effaith i amcan gor-redol y Rheoliadau hyn pan fo'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys—

(a) yn arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn; neu

(b) yn dehongli unrhyw reoliad.

(4) Yn benodol, rhaid i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys gymryd camau ymarferol i reoli apelau a hawliadau yn unol ag amcan gor-redol y Rheoliadau hyn.

Rhwymedigaeth ar y partïon i gydweithredu

7.—(1) Rhaid i'r partïon—

(**15**) Er eu bod wedi eu dirymu gan Atodlen 27 i Ddeddf 2010, mae Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (Darpariaethau Cyffredinol a Gweithdrefn Hawliadau Anabledd) 2002 yn parhau i gael effaith i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru. Gweler O.S. 2010/2317.

(**16**) O.S. 2001/3982.